**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN YMCHWILIAD PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD I REOLI TIR YN GYNALIADWY**

**GORFFENNAF 2014**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi isod ei ymatebion i argymhellion yr Adroddiad.

**Argymhelliad 1.**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn coethi ei diffiniad o 'reoli cynaliadwy' i ystyried ein hegwyddorion allweddol. Dylid gwneud hyn cyn cyflwyno'r Bil Amgylchedd, ac yn ddelfrydol dylid ei gynnwys yn y Bil drafft y mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi ymrwymo i'w ddarparu erbyn diwedd 2014. Ein hegwyddorion allweddol yw**

- **Y dylid seilio unrhyw ddiffiniad o reoli tir yn gynaliadwy ar ddiffiniad Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy a chydnabod cyd-ddibyniaeth anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru heddiw ac yn y dyfodol.**

- **Y dylai unrhyw ddiffiniad gydnabod y dylai rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru olygu diogelu a gwella gwasanaethau ecosystem a bioamrywiaeth a'r manteision cyhoeddus y maent yn eu darparu i gymdeithas Cymru.**

- **Y dylai unrhyw ddiffiniad gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod busnesau tir yng Nghymru, gan gynnwys busnesau amaethyddol a choedwigaeth, yn broffidiol ac yn gallu parhau i gefnogi cymunedau gwledig llewyrchus.**

- **Y dylai rheoli tir yn gynaliadwy geisio diogelu tirweddau pwysicaf ac anwylaf Cymru.**

**YMATEB: DERBYN MEWN EGWYDDOR**
Nododd Papur Gwyn y Bil Amgylchedd ein bwriad i sefydlu diffiniad cyfreithiol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru ac roedd yn cynnwys y cynigion gwreiddiol ar gyfer diffiniadau'r termau *Adnoddau Naturiol*, *Rheoli Adnoddau Naturiol yn Integredig*, a *Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy*. Bydd y diffiniadau'n tanategu dehongliad a chymhwysiad darpariaethau allweddol a fydd yn cael eu nodi yn y Bil drafft. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad Papur Gwyn wedi llywio ein meddwl am y diffiniadau hyn ac mae argymhellion y Pwyllgor yn ddefnyddiol a byddant yn cael eu defnyddio i goethi'r diffiniadau wrth barhau â drafftio'r Bil.

Y bwriad yw y bydd y diffiniadau'n gyson â'r diffiniad o egwyddor datblygiad cynaliadwy sy'n cael ei gyflwyno yn y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.  Wrth wneud hyn, bydd yn ceisio sicrhau cydnabod anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru heddiw ac yn y dyfodol ac yn sicrhau na fydd mantais defnydd y

genhedlaeth bresennol yn lleihau'r potensial i ddiwallu anghenion a gobeithion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae *rheoli adnoddau naturiol yn integredig* yn broses cynllunio a blaenoriaethu adnoddau naturiol sy'n cydlynu cynhaliaeth, gwelliant a defnydd adnoddau naturiol er mwyn cael y manteision hirdymor mwyaf i'r bobl, yr amgylchedd a'r economi yng Nghymru heddiw ac yn y dyfodol. Wrth ymgynghori ar y dull gweithredu hwn rydym wedi cael cymorth eang gan randdeiliaid, gan gynnwys rheolwyr tir. Ein bwriad yw darparu diffiniad o *reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy* yn y Bil drafft. Bydd cymhwyso dull gweithredu integredig o reoli ein hadnoddau naturiol yn sicrhau eu bod wedi'u rheoli'n fwy cynaliadwy er mwyn darparu mantais economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol trwy ganolbwyntio ar wytnwch ein hecosystemau a'r gwasanaethau maent yn eu darparu. Yn allweddol i'r dull gweithredu mae cynaliadwyedd parhaus diwydiannau tir a bydd 'rheoli tir yn gynaliadwy' felly wedi'i ymwreiddio'n llawn yn niffiniad rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a fydd yn cynnwys agweddau tir, môr ac arfordirol.

Bydd y Bil yn cael ei gefnogi gan gymhwysiad Cyfoeth Naturiol Cymru o ddull gweithredu integredig o reoli adnoddau naturiol wrth iddynt weithio gyda'r rheini sy'n gyfrifol am agweddau allweddol megis amaethyddiaeth a choedwigaeth wrth ddatblygu dulliau gweithredu mwy cynaliadwy.

**<u>Argymhelliad 2.</u>**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys canlyniadau sydd wedi'u hesbonio'n glir ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy yn ei Pholisi Adnoddau Naturiol.**

**YMATEB: DERBYN**

Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn cael ei arwain gan Weinidogion Cymru ac yn tynnu ar dystiolaeth o'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y Polisi'n nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol o ran rheoli, defnyddio a gwella ein hadnoddau naturiol i gefnogi manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor. Bydd y Polisi Cenedlaethol felly'n nodi'r deilliannau fydd yn canolbwyntio ac yn targedu ein darpariaeth ac wrth wneud hynny yn nodi sut y gall rheoli tir yn gynaliadwy gyfrannu at ein nod cyffredinol o sicrhau manteision hirdymor economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru.

**<u>Argymhelliad 3.</u>**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen sy'n nodi sut y bydd yn datblygu Polisi Adnoddau Naturiol rhwng nawr a'r dyddiad cwblhau disgwyliedig (h.y. 2016-17). Dylai'r amserlen hon:**

- **gynnwys manylion sut y bydd canlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy yn cael eu datblygu, eu hymgorffori a'u cyfathrebu;**

- **egluro sut y bydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan; a**

- **sut y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn cyflwyno'r Bil Amgylchedd.**

**YMATEB: DERBYN**
Bwriedir i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol statudol cyntaf fod ar waith erbyn 2017, yn amodol ar rwydd hynt y Bil Amgylchedd trwy'r Cynulliad. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar gymryd y camau gofynnol i baratoi ar gyfer cyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio ar baratoi Adroddiad cychwynnol ar Gyflwr Adnoddau Naturiol er mwyn darparu tystiolaeth i lywio datblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Ein bwriad yw y bydd fersiynau amlinelliad drafft o'r ddwy agwedd allweddol hyn ar y fframwaith polisi newydd ar gael adeg cyflwyno'r Bil.

Yn amodol ar basio'r Bil, byddant wedyn yn cael eu mireinio'n fersiynau ffurfiol cyntaf o dan y Ddeddf a bydd ymgynghori wrth wraidd y broses hon er mwyn sicrhau ystyried safbwyntiau'r holl randdeiliaid gan gynnwys rheolwyr tir.

Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn paratoi Strategaeth Amaethyddiaeth gydag ymglymiad rhanddeiliaid ar waith ac ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2015. Bydd hyn yn cefnogi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Cymru datblygol ac yn esbonio sut mae cyflawni dull gweithredu integredig o reoli adnoddau naturiol yn arwain at flaenoriaethau ar gyfer y sector amaethyddiaeth.

**<u>Argymhelliad 4.</u>**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd y gellir cynllunio cynlluniau cyfredol, fel Glastir, fel eu bod yn rhoi grym i dirfeddianwyr wneud penderfyniadau am sut i reoli tir yn gynaliadwy ar lawr gwlad. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion i ni ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei roi ar waith cyn diwedd 2014.**

**YMATEB: DERBYN MEWN EGWYDDOR**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl helaeth rheolwyr tir wrth reoli tir yn gynaliadwy a'r angen i annog eu mewnbwn wrth ffurfio polisïau.

Mae'r ymateb a gyhoeddwyd yn ddiweddar i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar argymhellion Glastir o dan y RDP nesaf 2014 – 2020 yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer newidiadau i fframwaith y cynllun Glastir.

O dan y RDP nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn gosod sail resymegol i fframwaith dylunio'r Cynllun Glastir i gynyddu mynediad rheolwyr tir i holl gydrannau'r cynllun a chyflwyno mwy o hyblygrwydd i reolwyr tir wrth wneud penderfyniadau allweddol ar sut orau i ddarparu amcanion y cynllun yn ymarferol heb fod ar draul y canlyniadau amgylcheddol y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'u cyflawni.

Datblygiad arwyddocaol ar gyfer Glastir o dan y RDP nesaf fydd darparu cefnogaeth wedi'i hwyluso i gynghori rheolwyr tir ar ffurfio cytundebau rheoli tir priodol a phenodol sy'n addas ar gyfer ffermydd a busnesau unigol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio adeiladu ar elfennau llwyddiannus y darparu cyngor presennol o ran Glastir. Bydd hyn yn sicrhau y bydd mynediad gan ffermwyr a coedwigwyr i'r gwasanaethau mentora, hyfforddi a chynghori angenrheidiol er mwyn eu galluogi i reoli'n gywir i gyflawni amcanion y cynllun gan hefyd sicrhau diwallu anghenion y busnes ffermio neu goedwigaeth.

Bydd grwpiau cymorth ffermwyr yn cael eu hwyluso a'u hariannu, yn arbennig ar gyfer cydrannau Glastir lle'r anogir dulliau gweithredu cydweithredol. Bydd cymorth yn canolbwyntio ar helpu darpar ymgeiswyr i ddatblygu eu busnes mewn ffordd gyfannol.

Bydd newidiadau eraill i'r fframwaith yn cynnwys dileu'r gofyniad i gymryd rhan mewn Prawf Mynediad Glastir i gael mynediad i holl gydrannau eraill Glastir a bydd un broses ymgeisio ar gyfer Tir Comin o dan Glastir yn cael ei chyflwyno.

**Argymhelliad 5.**

**Rydym yn argymell bod Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei gynlluniau peilot, yn gwerthuso’r defnydd posibl o fodelau cyflawni 'dewis wedi’i gyfeirio' ac yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor ar ganlyniadau’r gwerthusiadau hyn ar ddiwedd y prosiectau peilot.**

**YMATEB: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Mae'n amlwg yn dasg i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried sut y gellir gweithredu dewis wedi'i gyfeirio yn ei gynlluniau peilot fel y corff sy'n gyfrifol am sicrhau cynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy. Fodd bynnag, fel y cydnabu adroddiad y Pwyllgor, disgwylir i gynlluniau peilot Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried sut y dylai'r dull gweithredu hwn gael ei gynnal orau a bydd y canfyddiadau'n llywio polisïau yn y dyfodol. Ar yr amod bod yr egwyddor 'dewis wedi'i gyfeirio' yn gyson â phroses amlinellu blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fydd yna'n cael eu dehongli a'u cymhwyso ar lawr gwlad gan reolwyr tir, mae'r egwyddor yn cefnogi'r dull gweithredu sy'n cael ei gyflwyno gan y Bil Amgylchedd.

**Argymhelliad 6.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu a mabwysiadu fframwaith tystiolaeth i asesu cynnydd tuag at reoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru. Dylai’r fframwaith:**

- **nodi ffynonellau data a bylchau mewn gwybodaeth ar hyn o bryd;**
- **cynnwys amcanion clir ynglŷn â pha ddangosyddion cynnydd y bydd angen i ni eu mesur;**

- **hyn, dylai nodi cynllun gweithredu gyda blaenoriaethau ar gyfer gwella’r broses o gasglu data;**

- **rhoi arwydd o’r adnoddau y bydd eu hangen arnom i gyflawni ein hamcanion; a**

- **nodi rôl gwahanol sefydliadau yn y broses o gasglu data.**

**Dylai’r gwaith hwn adeiladu ar y gwaith sy’n cael ei wneud eisoes gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â data ar fioamrywiaeth a chefnogi’r broses o roi’r Bil Amgylchedd ar waith. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi’r argymhelliad hwn ar waith erbyn diwedd mis Mawrth 2015.**

**YMATEB: DERBYN MEWN EGWYDDOR**
Mae'r Bil Amgylchedd yn dangos ymroddiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio tystiolaeth i lywio polisi. Bydd y Bil yn rhoi ar waith fframwaith statudol a fydd yn llywio ansawdd a chysondeb tystiolaeth o ran rheoli adnoddau naturiol. Bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu cyflwr cyfredol a dyfodol a ragamcanir ein hadnoddau naturiol ac yn cydnabod y cysylltiadau sylfaenol rhwng cyflyrau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd yr adroddiad hwn yn sylfaen dystiolaeth hanfodol i Bolisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Yn ogystal, ar lefel leol, bydd y dull gweithredu ar lefel ardal yn ei dro yn nodi'r dystiolaeth a'r cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol ar lefel ardal. Yn bwysig, bydd y dull gweithredu hwn yn bwydo tystiolaeth i'r fframwaith cyffredinol fydd yn cael ei sefydlu yn y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys mewn cynlluniau Llesiant.

**<u>Argymhelliad 7.</u>**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynlluniau peilot i gynnwys rheolwyr tir yn y broses o gasglu data. Drwy wneud hynny, dylai sicrhau bod y data sy’n cael ei gasglu ac unrhyw gasgliadau a geir o’r data yn cael eu bwydo’n ôl yn ystyrlon i reolwyr tir. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion i ni ar sut a phryd y bydd yn rhoi’r argymhelliad hwn ar waith wrth ymateb i’r adroddiad hwn.**

**YMATEB: DERBYN MEWN EGWYDDOR**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ffermwyr yn darparu adnodd ardderchog o ran casglu data ond mae adnodd o'r fath yn ddefnyddiol wrth lunio polisïau dim ond pan gaiff ei ymgorffori mewn strwythur cydlynol o gasglu data.

Ymhlith yr enghreifftiau o fecanweithiau casglu data sydd eisoes yn bodoli mae Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir sy'n defnyddio fframwaith modelu arloesol gan ganiatáu amcangyfrifon cynnar o effaith y cynllun.

Yn 2012 roedd Llywodraeth Cymru wedi caffael rhaglen monitro a gwerthuso 4 blynedd y cynllun Glastir a chaiff ei harwain bellach gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol ym Mhrifysgol Bangor.

Mae rhan sylweddol o'r rhaglen yn cynnwys ystod helaeth o arolygon ffermwyr gan gynnwys arolwg arfer ffermio i gasglu data ar addasiadau i arferion ffermio mewn

ymateb i ddechrau'r cynllun Glastir ac arolwg o effeithiau Grantiau Effeithlonrwydd Glastir ar olion traed carbon ar y fferm ac yn y gymuned wledig ehangach. Wrth gydnabod pwysigrwydd cynnwys ffermwyr mewn casglu data, dylid nodi bod angen methodolegau cyson ac arbenigedd ar wyddoniaeth gynhwysfawr a adolygwyd gan gymheiriaid ar effeithiau amgylcheddol ac ni fydd yn briodol bob tro i gynnwys ffermwyr yn hyn.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol cyntaf Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir yn ddiweddar ac mae ar gael yn helaeth ar-lein ac fel copi caled ar gais. Cynhelir cyfarfodydd rhanddeiliaid rheolaidd bob chwech mis sy'n cynnwys cynrychiolwyr ffermio er mwyn adrodd ar gynnydd, a defnyddir mecanweithiau cyhoeddusrwydd megis Gwlad i gyflwyno canlyniadau a chamau gweithredu pan fyddant ar gael.

**Argymhelliad 8.**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Gwledig a'r cynllun Glastir diwygiedig yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n well o'n canolfannau ymchwil i reolwyr tir ar lawr gwlad ac i gefnogi a hwyluso trosglwyddo gwybodaeth rhwng rheolwyr tir. Hefyd, dylid ehangu'r gefnogaeth hon i annog ymchwil a datblygu sy'n adlewyrchu anghenion rheolwyr tir.**

**YMATEB: DERBYN**

Mae'r ymateb a gyhoeddwyd yn ddiweddar i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer Glastir o dan y RDP nesaf 2014 – 2020 yn cynnwys nifer o gynigion a ddyluniwyd i drosglwyddo gwybodaeth yn well yn Glastir. Mae cynigion penodol yn cynnwys defnyddio swyddogion datblygu dymunol yn fwy, dyrannu arian ar gyfer grwpiau cymorth rhwng ffermwyr (yn arbennig ar gyfer elfennau o Glastir lle'r anogir dulliau gweithredu cydweithredol) ac adolygu strategaeth gyfathrebu Glastir. Y tu hwnt i'r cynigion penodol hyn mae hefyd pwyslais ar ddefnyddio dulliau digidol yn fwy i gyfathrebu ac addysgu a nod cyffredinol o wella dealltwriaeth rheolwyr tir o nodau, amcanion a phrosesau Glastir.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cwblhau cynigion i drosglwyddo gwybodaeth, cyngor ac arloesedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020. Yn rhan o'r broses hon bydd y Llywodraeth yn rhoi ar waith ystod o weithgareddau Trosglwyddo Gwybodaeth i gefnogi trosglwyddo gwybodaeth yn well i reolwyr tir a chyfleu anghenion ymchwil i'r gymuned wyddonol. Bydd mesurau'n cynnwys rhwydwaith estynedig o weithgareddau arddangos ffermydd a choedwigoedd yn canolbwyntio ar rannu a hyrwyddo'r arloesedd, offer a thechnegau diweddaraf i gefnogi rheoli tir yn gynaliadwy.

I gefnogi mentrau trosglwyddo gwybodaeth ymhellach, mae Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn datblygu sefydliad Pwllpeiran fel llwyfan ymchwil ucheldir rhyngwladol. Yn sgil hyn, bydd cyfle helaeth gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig i arddangos arloesedd yn y diwydiant, a phosibilrwydd o drosglwyddo gwybodaeth yn ehangach yn y dyfodol.

**<u>Argymhelliad 9.</u>**
**Rydym yn argymell ehangu’r dull gweithredu a ddefnyddir gan Cyswllt Ffermio i gefnogi gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau pwrpasol i reolwyr tir, gan gynnwys y sector coedwigaeth, mewn perthynas ag arferion rheoli tir yn gynaliadwy.**

**YMATEB: DERBYN**
Bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Cyswllt Ffermio cyfredol i ddarparu rhaglen well i'r sectorau Ffermio a Choedwigaeth o drosglwyddo gwybodaeth, gwasanaethau cynghorol a chefnogi arloesedd o dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf 2014 – 2020.

**<u>Argymhelliad 10.</u>**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys darpariaeth cyngor a chymorth ar gynllunio olyniaeth i ffermwyr presennol yn y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf.**

**YMATEB: DERBYN**
Mae gwella symudedd a chyflwyno egni a syniadau newydd yn gonglfaen i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o foderneiddio yn y diwydiant amaethyddiaeth. Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi comisiynu Malcolm Thomas i gynnal adolygiad i'r Genhedlaeth Ffermio Nesaf a bydd yn gwneud datganiad ar ymateb Malcolm maes o law.

Yn rhan o'r Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ymgorffori cyngor a chefnogaeth gynhwysfawr i ffermwyr er mwyn galluogi cynllunio olyniaeth busnes fferm yn effeithiol.

Nod ein dull gweithredu rheoli adnoddau naturiol yw cefnogi gwytnwch busnesau tir. Wrth gymhwyso'r dull gweithredu bydd yn blaenoriaethu camau gweithredu i gynyddu gwytnwch a'r ystod o fanteision a ddaw o'n hadnoddau naturiol. Mae'n hollbwysig bod gwytnwch wrth wraidd cynllunio olyniaeth ar gyfer ffermwyr yn ogystal â'r cyfleoedd i amrywiaethu ar sail y gwasanaethau y gall adnoddau naturiol eu darparu.

**<u>Argymhelliad 11.</u>**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl gydlynol i ddwyn ynghyd y gwaith sy’n cael ei wneud eisoes drwy brosiectau unigol ar ddarparu gwasanaethau ecosystemau a dosbarthu’r gwaith hwnnw. Efallai y bydd am ystyried yr astudiaethau achos a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gennym yn [http://tiny.cc/ey27ex](http://tiny.cc/ey27ex)**

**YMATEB: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Croesawn gefnogaeth y Pwyllgor ar gyfer y dull gweithredu ecosystem ac am nodi'r astudiaethau achos arfer da o ran cyflawni gwasanaeth ecosystem. Mae'r egwyddorion sy'n sylfaen i'r dull gweithredu ecosystem wrth wraidd ein dull gweithredu polisi o reoli adnoddau naturiol ac maent wedi ffurfio'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno yn y Bil Amgylchedd.

Mae gwersi o'r prosiectau unigol a gynhaliwyd hyd yn hyn yn bwysig wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu, yn arbennig o ran system Talu am Wasanaethau Ecosystemau. O ran cydlynu a rhannu gwaith y prosiectau unigol, o ystyried eu rôl byddai'n well fodd bynnag pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud.

**Argymhelliad 12.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn cefnogi datblygiad system talu am wasanaethau ecosystemau a'r amserlen y mae'n rhagweld ar gyfer datblygu a/neu ddefnyddio marchnadoedd priodol ar gyfer gwasanaethau ecosystemau yng Nghymru. Gofynnwn iddi ddarparu'r wybodaeth hon i ni cyn diwedd 2014.**

**YMATEB: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Mae'r ddau ddull gweithredu o gyflwyno system Talu am Wasanaethau Ecosystemau a adlewyrchir yn adroddiad y Pwyllgor yn nodweddion yn ein polisi datblygol gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut orau i alinio cefnogaeth o dan y RDP i gyflawni gwasanaethau ecosystemau. Byddwn hefyd yn parhau i ymchwilio i ddulliau eraill o ysgogi mecanweithiau marchnad i ddarparu buddsoddiad i ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem a oruchwylir gan reolwyr tir y tu allan i'r RDP.

Fel y mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, rydym wedi comisiynu ymchwil i gyfleoedd posibl i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystem yng Nghymru. Mae'r gwaith ymchwil newydd ddod i ben a chaiff ei gyhoeddi cyn gwyliau'r haf. Byddaf yn rhoi ystyriaeth lawn i'r holl argymhellion a wneir yn yr adroddiad wrth ddatblygu ein polisi a byddaf yn cyhoeddi map ffordd gyda'n camau nesaf yn nhymor yr hydref.

**Argymhelliad 13.**

**Rydym yn argymell bod y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf yn darparu cefnogaeth ar gyfer treialu a datblygu darpariaeth o wasanaethau ecosystemau drwy Glastir a drwy rannau eraill o'r cynllun, gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth a ffyrdd arloesol o gyllido fel benthyciadau. Wrth gyflawni'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus sut mae'n cynllunio cyfraddau talu ar gyfer gwahanol gynlluniau.**

**YMATEB: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ceisio a chanlyn cyfleoedd i sicrhau arian gwasanaeth ecosystem ychwanegol yn Glastir. Mae gan gynllun newydd arfaethedig Glastir ystod eang o weithgareddau wedi'u seilio ar ddeilliannau sydd â'r potensial i ddenu buddsoddiad ychwanegol megis

- Rheoli i hyrwyddo dal a storio carbon
- Taliadau rheoli tir ar gyfer storio ac ansawdd dŵr
- Cymorth grant seilwaith ar gyfer rheoli carbon pridd a dŵr
- Rheoli a chreu coetiroedd
- Camau graddfa tirwedd i fod o fudd i fioamrywiaeth
- Ynni adnewyddadwy

Mae potensial i archwilio mecanweithiau talu eraill o ran gwobrwyo rheolwyr tir am ddarparu cynnyrch a gwasanaethau amgylcheddol trwy'r RDP, sydd wedi'i seilio ar ganlyniadau ac i'w briodoli'n uniongyrchol i gynnyrch, nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Mae'r amodau a'r amgylchiadau gofynnol i gymell arian preifat i ategu gweithgarwch rheoli tir o dan y RDP yn aml yn benodol i leoliad e.e. astudiaeth achos First Milk. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio cyfleoedd lleol pan fyddant yn dod yn ymwybodol ohonynt.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig cefnogi mecanweithiau mwy sefydledig megis y Cod Carbon Coetiroedd a datblygiad y Cod Carbon Mawndiroedd sydd mewn sefyllfa well i'w cymhwyso ar lefel genedlaethol.

Bydd arian RDP hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cydweithrediad a hwyluso archwiliad gwahanol ddulliau gweithredu i annog arian preifat ar gyfer gweithgareddau rheoli tir yn gynaliadwy.

Gyda lansiad y Gronfa Natur rydym eisoes wedi sefydlu cronfa y gellir ei defnyddio i gefnogi treialu a datblygu prosiectau Talu am Wasanaethau Ecosystem. Wrth gefnogi'r dulliau gweithredu arloesol hyn bydd y gronfa'n darparu dysgu allweddol ar gyfer cyflawniad y RDP.

Yn ogystal, er mwyn cefnogi datblygu system Talu am Wasanaethau Ecosystem, bydd y Bil Amgylchedd yn cynnwys pŵer arloesi i ddarparu pwerau arbrofi gwell i Cyfoeth Naturiol Cymru i dreialu dulliau gweithredu newydd. Bydd hyn yn bwysig er mwyn sicrhau y defnyddir y gwersi o gymhwyso treialon yng Nghymru i gael y manteision posibl mwyaf o'r dull gweithredu hwn ac i leihau risg canlyniadau anfwriadol.

**Argymhelliad 14.**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu partneriaethau i ddenu a chefnogi prosiectau gyda buddsoddiad gan fentrau yn y sector preifat.**

**YMATEB: DERBYN MEWN EGWYDDOR**
Mae'r Gronfa Natur yn darparu enghraifft o sut rydym yn rhagweithiol wrth gyflwyno ffyrdd arloesol o weithio yn y maes hwn. Rydym eisoes wedi cyhoeddi'r syniadau a gafwyd gan bartneriaid o ran y Gronfa Natur a gwahoddwyd cynigion bellach am brosiectau sy'n cefnogi'r dull gweithredu hwn ac yn darparu tystiolaeth er mwyn hysbysu'r mathau o gamau y dylid eu cymryd o ran systemau talu am wasanaethau ecosystem. Mae'r gronfa'n darparu cyfle i ffurfio partneriaethau newydd ac i fentrau'r sector preifat chwarae rhan gynnar yn natblygiad gwasanaethau ecosystem.

Yn ogystal, mae ein prosbectws Twf Gwyrdd Cymru yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i annog buddsoddiad yng Nghymru gan fusnesau gwyrdd. Mae hyn yn amlinellu sut rydym yn bwriadu gweithio gyda'r sector preifat i ddwyn buddsoddiad newydd i'r maes hwn.